# POLISI PREIFATRWYDD

Mae’r polisi preifatrwydd hwn yn weithredol rhyngddoch chi, Defnyddiwr y Wefan, ac ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS, perchennog a darparwr y Wefan. Mae ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn cymryd preifatrwydd eich gwybodaeth o ddifrif. Mae’r polisi preifatrwydd yn berthnasol i’n defnydd ni o unrhyw a’r holl Ddata a gesglir gennym neu a ddarperir gennych chi mewn cysylltiad â’ch defnydd o’r Wefan.

Dylai’r polisi preifatrwydd gael ei ddarllen ochr yn ochr, ac yn ychwanegol i’r Telerau ac Amodau, a geir ar ………………………

**Darllenwch y polisi yn ofalus os gwelwch yn dda**

## Diffiniadau a dehongliadau

1 Yn y polisi preifatrwydd hwn mae’r diffiniadau isod yn cael eu defnyddio:

| | |
|---|---|
| **Data** | Yr holl wybodaeth rydych yn ei gyflwyno i ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS trwy’r Wefan. Mae’r diffiniad yma yn ymgorffori, lle fo’n berthnasol, y diffiniadau a geir yn y Cyfreithiau Diogelu Data |
| **Cwcis** | Ffeil testun bach sy’n cael ei osod ar eich cyfrifiadur gan y Wefan pan fyddwch yn ymweld â mannau penodol o’r Wefan ac/neu yn defnyddio adnoddau penodol o’r Wefan. Mae’r defnydd o gwcis gan y Wefan wedi’i osod allan yn y cymal isod (Cwcis) |
| **Cyfreithiau Diogelu Data** | Unrhyw gyfraith berthnasol yn ymwneud â phrosesu Data bersonol, yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i GDPR, ac unrhyw gyfreithiau gweithredu cenedlaethol a chyfreithiau atodol, rheoliadau a deddfwriaeth eilradd |
| **GDPR** | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU |
| **ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS (ni)** | ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS sy’n gwmni corfforedig yng Nghymru a Lloegr gyda’r rhif cofrestru 8181527 a sydd a’i gyfeiriad cofrestredig yn 33 Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7BB |
| **Cyfraith Gwci y DU a’r UE** | Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electroneg (Cyfarwyddeb CE) 2003 fel y’i diwygiwyd gan Reoliadau (Diwygiad) Preifatrwydd a Chyfathrebu Electroneg (Cyfarwyddeb CE) 2011 a’r Rheoliadau (Diwygiad) Preifatrwydd a Chyfathrebu Electrnoeg (Cyfarwyddeb CE) 2018 |
| **Defnyddiwr** neu **Chi** | Unrhyw drydydd parti sy’n cael mynediad i’r Wefan ac sydd ddim yn unai (i) wedi’i gyflogi gan ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS ac yn gweithredu yng nghwrs eu cyflogaeth neu (ii) yn gweithredu fel ymgynghorydd neu fel arall yn darparu gwasanaethau i ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS ac yn cael mynediad i’r Wefan mewn cysylltiad â darpariaeth y gwasanaethau hynny |
| **Gwefan** | Y Wefan rydych yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ac unrhyw is-faes o’r Wefan hon oni bai ei fod wedi’i eithrio’n benodol wrth ei delerau ac amodau ei hun |

2 Yn y polisi preifatrwydd hwn, ac oni bai fod y cyd-destun angen dehongliad gwahanol:

a) Mae’r unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall;

b) Mae cyfeiriad at is-gymalau, cymalau, neu atodlenni yn golygu is-gymalau, cymalau neu atodlenni y polisi preifatrwydd;
c) Mae cyfeiriad at berson yn cynnwys cwmnîau, sefydliadau llywodraethol, ymddiriedolaethau a phartneriaethau;
d) Mae ‘yn cynnwys’ yn cael ei ddeall i olygu ‘yn cynnwys heb gyfyngiad’.
e) Mae cyfeiriad at unrhyw ddarpariaeth statudol yn cynnwys unrhyw addasiad neu ddiwygiad iddo;
f) Nid yw’r penawdau nac is-benawdau yn ffurfio rhan o’r polisi preifatrwydd.

**Sgôp y polisi preifatrwydd**

3 Mae’r polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol i weithredoedd ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS a’r Defnyddwyr yn unig o ran y Wefan. Nid yw yn ymestyn i unrhyw wefannau y gellir cael mynediad iddyn o’r Wefan yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, unrhyw ddolenni gallwn ddarparu i wefannau cyfryngau cymdeithashol.

4 At ddibenion y Cyfreithiau Diogelu Data perthnasol, ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yw’r ‘rheolwr data’. Mae hyn yn golygu mai ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS sy’n penderfynu am ba bwrpas, ac ym mha ffordd, bydd eich Data yn cael ei brosesu

**Data a gesglir**

5 Gallwn gasglu’r Data canlynol, sy’n cynnwys Data bersonol, wrthych:
a) New;
b) Dyddiad geni;
c) Rhyw;
d) Teitl swydd;
e) Galwedigaeth;
f) Manylion cyswllt fel cyfeiriadau ebost a rhifau ffôn;
g) Manylion ariannol fel rhifau cardiau debyd/credyd;
h) Cyfeiriad IP (cesglir yn awtomatig)

ym mhob achos, yn unol â’r polisi preifatrwydd hwn.

**Sut rydym yn casglu Data**

6 Rydym yn casglu Data yn y ffyrdd canlynol:
a) Data sy’n cael ei roi i ni gennych chi;
b) Data sy;n cael ei dderbyn o ffynonellau eraill;
c) Data sy’n cael ei gasglu’n awtomatig.

**Data sy’n cael ei roi i ni gennych chi**

7 Bydd ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn casglu eich Data mewn llawer o wahanol ffyrdd, er enghraifft:
a) Pan fyddwch yn cysylltu â ni drwy’r Wefan, dros y ffôn, drwy’r post, ar ebost neu drwy unrhyw ffordd arall;
b) Pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau

ym mhob achos, yn unol â’r polisi preifatrwydd hwn.

**Data sy’n cael ei dderbyn o ffynonellau eraill sydd ar gael yn gyhoeddus**

8 Byddwn yn derbyn Data amdanoch wrth y ffynonellau cyhoeddus canlynol:
a) Y Gofrestrfa Dir, Tŷ’r Cwmnïau a ffynonellau llywodraethol eraill

**Data sy'n cael ei gasglu'n awtomatig**

9 I'r graddau y byddwch yn mynd ar y Wefan, byddwn yn casglu eich Data yn awtomatig, er enghraifft:

a) Byddwn yn casglu rhywfaint o wybodaeth yn awtomatig am eich ymweliad â'r Wefan. Mae'r wybodaeth yma yn ein helpu i wneud gwelliannau i gynnwys a hwylusrwydd defnydd y Wefan, ac mae'n cynnwys eich cyfeiriad ID, y dyddiad, amseroedd ac amlder eich mynediad i'r Wefan, a'r ffordd rydych yn ei ddefnyddio ac yn ymwneud â'i gynnwys.

b) Byddwn yn casglu eich Data yn awtomatig trwy gwcis, yn unol â'r gosodiadau cwcis ar eich porwr. Am fwy o wybodaeth am gwcis, a sut rydym yn eu defnyddio ar y Wefan, gweler yr adran isod â'r pennawd 'Cwcis'.

**Ein defnydd o'r Data**

10 Mae'n bosibl y bydd angen unrhyw un, neu'r holl Ddata uchod arnom o dro i dro er mwyn rhoi'r gwasanaeth gorau posibl a'r profiad gorau wrth ddefnyddio'r Wefan. Yn benodol, gall y Data gael ei ddefnyddio ar gyfer y rhesymau canlynol:

a) Cadw cofnodion mewnol;
b) Gwelliant ein cynnyrch/gwasanaethau;
c) Trosglwyddiad o ddeunydd marchnata a allai fod o ddiddordeb i chi dros ebost;
d) Er mwyn cynorthwyo a phellhau gweithrediad eich cyfarwyddiadau

ym mhob achos yn unol â'r polisi preifatrwydd.

11 Efallai byddwn yn defnyddio eich Data ar gyfer y pwrpasau uchod os ydym yn barnu ei fod yn angenrheidiol i ni wneud hynny er lles ein buddiannau cyfreithlon. Os and ydych yn hapus â hyn, mae hawl gennych i wrthwynebu mewn rhai amgylchiadau (gweler yr adran â'r pennawd 'Eich hawliau' isod).

12 Er mwyn marchnata'n uniongyrchol â chi drwy ebost, byddwn angen eich caniatâd, p'un ai optio i mewn, neu optio i mewn ysgafn:

a) Mae optio i mewn ysgafn yn fath penodol o ganiatâd sy'n berthnasol pan rydych wedi ymwneud â ni yn flaenorol (er enghraifft, os ydych yn cysylltu â ni i ofyn am ragor o fanylion am gynnyrch/wasanaeth penodol, ac rydym yn marchnata cynnyrch/gwasanaeth tebyg). O dan ganiatâd optio i mewn ysgafn, byddwn yn cymryd bod eich caniatâd wedi'i roi oni bai eich bod wedi optio allan.

b) Ar gyfer mathau eraill o e-farchnata, rydym angen eich caniatâd penodol, hynny ydi, mae angen i chi gymryd camau positif wrth roi caniatâd, er enghraifft trwy dicio blwch byddwn wedi'i ddarparu.

c) Os and ydych yn hapus gyda'n agwedd at farchnata, mae gennych yr hawl i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. I weld sut mae tynnu eich caniatâd yn ôl, ewch i'r adran â'r pennawd 'Eich hawliau' isod.

**Â phwy rydym yn rhannu Data**

13 Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich Data gyda'r grwpiau canlynol o bobl am y rhesymau canlynol:

a) Ein gweithwyr, asiantau a/neu cynghorwyr proffesiynol – er mwyn cael cyngor wrth cynghorwyr proffesiynol;

b) Darparwyr gwasanaeth trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau sy'n gofyn am brosesu data bersonol – er mwyn rhoi cymorth i ddarparwyr gwasanaeth

trydydd parti sy'n derbyn unrhyw ddata a rennir i gyflawni swyddogaethau ar ein rhan i sicrhau bod y Wefan yn rhedeg yn llyfn;

c) Awdurdodau perthnasol – i hwyluso canfyddiad trosedd neu gasglu trethi neu dollau;

Ym mhob achos, yn unol â'r polisi preifatrwydd.

**Cadw Data yn ddiogel**

14 Byddwn yn defnyddio mesurau technegol a sefydliadol i warchod eich Data, er enghraifft:

a) Bydd mynediad i'ch cyfrif yn cael ei reoli gan gyfrinair ac new defnyddiwr sydd yn unigryw i chi;
b) Byddwn yn storio eich Data ar weinydd diogel;
c) Mae manylion talu wedi'u amgryptio gan ddefnyddio technoleg SSL (fel arfer byddwch yn gweld eicon clo neu far cyfeiriad gwyrdd (neu'r ddau) yn eich porwr pan fydd yn defnyddio'r dechnoleg hon.

15 Mae mesurau technegol a sefydliadol yn cynnwys mesurau sy'n delio ag unrhyw amheuaeth o dor-data. Os ydych yn amau unrhyw gam-ddefnydd, golled, neu fynediad anghyfreithlon i'ch Data, rhowch wybod i ni yn syth drwy gysylltu â ni drwy'r cyfeiriad ebost: post@adve.co.uk

16 Os ydych eisiau gwybodaeth fanylach wrth Get Safe Online, a chyngor ar sut i warchod eich gwybodaeth, a'ch cyfrifiaduron a'ch teclynnau yn erbyn twyll, lladrad hunaniaeth, firysau a phroblemau eraill ar y we, dylech ymweld â www.getsafeonline.org. Mae Get Safe Online yn cael ei gefnogi gan Llywodraeth EF a busnesau blaenllaw.

**Cadw Data**

17 Oni bai for cyfnod cadw hirach yn ofynnol neu'n cael ei ganiatau gan y gyfraith, dim ond am y cyfnod angenrheidiol byddwn yn cadw eich Data ar ein systemau, er mwyn cyflawni'r pwrpasau a nodir yn y polisy preifatrwydd hwn, neu tan byddwn yn derbyn eich cais i ddileu y Data.

18 Hyd yn oed os ydym yn dileu eich Data, mae'n bosib y bydd yn parhau ar y system wrth gefn neu ein cyfryngau archifol at bwrpasau cyfreithiol, treth neu rheoleiddiol.

**Eich hawliau**

19 Mae gennych yr hawliau canlynol yn ymwneud â'ch Data:

a) **Hawl i fynediad** – yr hawl i ofyn am (i) gopïau o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch ar unrhyw adeg neu (ii) ein bod yn newid, diweddaru, neu ddileu'r fath wybodaeth. Os ydym yn darparu mynediad i chi i'r wybodaeth sydd gennym, ni fyddwn yn codi tâl am hyn, oni bai bod eich cais 'yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Lle bo hawl cyfreithiol gennym i wneud hynny, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod eich cais. Os ydym yn gwrthod eich cais, byddwn yn rhoi rheswm i chi am hynny.
b) **Hawl i gywiro –** yr hawl i gywro eich Data os and yw'n gywir neu'n anghyflawn.
c) **Hawl i ddileu** – yr hawl i ofyn i ni ddileu neu waredu eich Data o'n systemau.
d) **Hawl i gyfyngu ein defnydd o'ch Data** – yr hawl i'n rhwystro ni rhag defnyddio eich Data neu gyfyngu ar y ffordd rydym yn ei ddefnyddio.

e) **Hawl i hygludedd data** – yr hawl i ofyn i ni symud, gopïo neu drosglwyddo eich Data.

f) **Hawl i wrthwynebu** – yr hawl i wrthwynebu ein defnydd o'ch Data yn cynnwys pan fyddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer buddiannau cyfreithlon.

20 I wneud ymholiadau, weithredu unrhyw un o'r hawliau uchod, neu i dynnu eich caniatâd i brosesu eich Data yn ôl (lle mai caniatâd yw'r sail gyfreithiol am brosesu eich Data), cysylltwch â ni drwy'r cyfeiriad ebost: post@adve.co.uk

21 Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd mae eich cŵyn ynglyn â'ch Data wedi cael ei ddelio gennym, mae'n bosibl y byddwch yn medru cyfeirio eich cŵyn at yr awdurdod gwarchod data perthnasol. Ar gyfer y DU, hwn yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae manylion cyswllt yr ICO ar eu gwefan ar http://ico.org.uk/.

22 Mae'n bwysig fod y Data sydd gennym amdanoch yn gywir ac yn gyfoes. Dylech roi gwybod i ni os yw eich Data yn newid dros y cyfnod rydym yn ei ddal.

**Dolenni i wefannau eraill**

23 Gall y Wefan hon, o dro i dro, ddarparu dolenni ar gyfer gwefannau eraill. Does gennym ni ddim rheolaeth dros y gwefannau hynny, ac nid ydym yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau. Nid yw'r polisi preifatrwydd yn ymestyn i'ch defnydd o'r gwefannau eraill yma. Dylech ddarllen polisi neu ddatganiad preifatrwydd y gwefannau eraill cyn eu defnyddio.

**Newid perchnogaeth a rheolaeth busnes**

24 Gall ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS o dro i dro ehangu neu leihau ein busnes a gallai hyn gynnwys gwerthiant a/neu drosglwyddiad rheolaeth o bob neu unrhyw ran o ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS. Bydd Data a ddarperir gan Ddefnyddwyr, lle bo hynny'n berthnasol i'r rhan o'r busnes a drosglwyddir, yn cael ei drosglwyddo gyda'r rhan hwnnw o'r busnes, a bydd y perchennog newydd, neu'r person â rheolaeth newydd, yn medru, o dan dermau'r polisi preifatrwydd hwn, defnyddio eich Data at y pwrpasau gwreiddiol y gwnaethoch ei ddarparu i ni.

25 Mae'n bosibl y byddwn yn datgelu Data i ddarpar brynwr o'r busnes ac unrhyw ran ohono.

26 Yn yr amgylchiadau uchod, byddwn yn cymryd camau er mwyn sicrhau bod eich preifatrwydd yn cael ei warchod.

**Cwcis**

27 Mae'r Wefan hon yn gosod ac yn cael mynediad i Gwcis penodol ar eich cyfrifiadur. Mae ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn defnyddio Cwcis er mwyn gwella eich profiad o ddefnyddio'r Wefan a gwella ystod ein gwasanaethau, ac rydym wedi cymryd camau i sicrhau fod eich preifatrwydd yn cael ei warchod a'i barchu bob amser.

28 Mae pob Cwci a ddefnyddir gan y Wefan hon yn cael eu defnyddio yn unol â Chyfraith Cwci cyfredol y DU a'r UE.

29 Cyn bod y Wefan yn gosod Cwcis ar eich cyfrifiadur, byddwn bar neges yn cael ei ddangos i chi yn gofyn am eich caniatâd i osod y Cwcis hynny. Trwy roi eich caniatâd i osodiad y Cwcis, rydych yn galluogi ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS i ddarparu gwell profiad a gwasanaeth

i chi. Gallwch, os ydych yn dymuno gwneud hynny, wrthod rhoi eich caniatâd i osodiad y Cwcis, ond efallai na fydd rhinweddau penodol o'r Wefan yn gweithio'n llawn neu fel y bwriedir.

30 Gall y Wefan hon osod y Cwcis canlynol:

| Math o Gwci | Pwrpas |
|---|---|
| Cwcis hollol angenrheidiol | Dyma'r cwcis sydd yn hanfodol ar gyfer gweithrediad y Wefan. Maent yn cynnwys, er enghraifft, cwcis sydd yn eich galluogi chi i fewngofnodi i fannau diogel y Wefan, defnyddio cart siopa, neu wneud defnydd o'r gwasanaethau e-filio. |
| Cwcis Dadansoddol/Perfformiad | Mae'r cwcis yma yn ein galluogi i adnabod a chyfrif y nifer o ymwelwyr, ac i weld sut mae ymwelwyr yn symud o amgylch y Wefan pan maent yn ei ddefnyddio. Mae hyn yn ein helpu i wella y ffordd mae'r Wefan yn gweithio, er enghraidd, trwy sicrhau bod defnyddwyr yn canfod yr hyn maent yn edrych amdano yn rhwydd |
| Cwcis Ymarferoldeb | Mae'r cwcis yma yn cael eu defnyddio i'ch adnabod chi pan fyddwch yn dychwelyd i'r Wefan. Mae hyn yn ein galluogi ni i bersonoleiddio ein cynnwys i chi, eich cyfarch wrth eich new a chofio eich hoffterau (er enghraifft eich dewis o iaith ac ardal). Trwy ddefnyddio'r Wefan, rydych yn cytuno i ososdiad ein cwcis ymarferoldeb. |

31 Gallwch ganfod rhestr o'r Cwcis rydym yn eu defnyddio yn yr Atodlen Gwcis.

32 Rydym yn rhoi rheolaeth i chi dros ba Gwcis byddwn yn eu defnyddio. Gallwch newid eich hoffterau cwcis ar unrhyw adeg.

33 Gallwch hefyd ddewis i alluogi neu analluogi Cwcis yn eich porwr rhyngrwyd. Mae'r mwyafrif o borwyr rhyngrwyd yn derbyn cwcis fel rhagosodiad ond gall hyn gael ei newid. Am fwy o fanylion edrychwch ar ddewislen cymorth eich porwr rhyngrwyd. Gallwch droi'r cwcis i ffwrdd ar unrhyw adeg, ond, mae'n bosibl y byddwch yn colli gwybodaeth sy'n eich galluogi i gael mynediad cynt a mwy effeithiol i'r Wefan.

34 Gallwch ddewis dileu'r Cwcis ar unrhyw adeg, ond, mae'n bosibl y byddwch yn colli unrhyw wybodaeth sy'n eich galluogi i gael mynediad cynt a mwy effeithiol i'r Wefan yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, osodiadau personoli.

35 Fel argymhelliad dylech sicrhau fod eich porwr rhyngrwyd ar y fersiwn diweddaraf, a'ch bod yn edrych ar y cymorth a ddarperir gan ddatblygwr eich porwr rhyngrwyd os ydych yn ansicr am addasu eich gosodiadau preifatrwydd.

36 Am fwy o wybodaeth cyffredinol ar gwcis, yn cynnwys sut i'w hanalluogi, ewch i aboutcookies.org. Fe welwch yno hefyd wybodaeth ar sut i ddileu cwcis o'ch cyfrifiadur

**Cyffredinol**

37 Ni allwch drosglwyddo eich hawliau o dan y polisi preifatrwydd hwn i unrhyw berson arall. Gallwn ni drosglwyddo ein hawliau o dan y polisi preifatrwydd lle rydym yn rhesymol yn credu na fydd eich hawliau yn cael eu heffeithio.

38 Os oes unrhyw lys neu awdurdod cymwys yn canfod fod unrhyw ran o'r polisi preifatrwydd hwn yn annilys, anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, bydd y rhan perthnasol hwnnw, i'r graddau angenrheidiol, yn cael ei ystyried i gael ei ddileu, ac ni fydd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd a gorfodaeth gweddill y polisi preifatrwydd.

39 Oni gytunir fel arall, ni fydd unrhyw oedi, weithred nac anweithred gan unrhyw barti sy'n ymarfer unrhyw hawl neu rwymedi yn cael ei ystyried i fod yn hepgoriad o'r hawl neu rwymedi hwnnw, nac unrhyw hawl neu rwymedi arall.

40 Bydd y Gytundeb hon yn cael ei llywodraethu gan a'i dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr. Bydd unrhyw anghydfod sy'n deillio o'r Gytundeb yn ddarostyngedig i awdurdodaeth ecsgliwsif llysoedd Cymru a Lloegr.

**Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn**

41 Mae ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS yn cadw'r hawl i newid y polisi preifatrwydd hwn o dro i dro fel rydym yn ei ystyried sy'n angenrheidiol, neu fel sydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu nodi ar y Wefan yn syth, a byddwch yn cael eich hystyried i dderbyn termau'r polici preifatrwydd ar eich defnydd cyntaf o'r Wefan yn dilyn y newidiadau.

Gallwch gysylltu ag ADVE LAW LTD yn masnachu fel ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS drwy ebost ar post@adve.co.uk

Crëwyd y polisi preifatrwydd hwn ar 11 Hydref 2022

**ATODLEN GWCIS**

Isod mae rhestr o'r cwcis rydym yn eu defnyddio. Rydym wedi ceisio sicrhau fod y rhestr yn gyflawn ac yn gyfoes, ond os ydych yn meddwl ein bod wedi methu cwci neu fod unrhyw anghysondeb, rhowch wybod i ni.

**Cwcis Hollol Angenrheidiol**
Rydym yn defnyddio'r cwcis hollol angenrheidiol canlynol:

| **Enw'r cwci** | **Pwrpas y cwci** |
|---|---|
| | Rydym yn defnyddio'r cwci sesiwn yma i'ch cofio chi ac i gadw eich sesiwn tra eich bod yn defnyddio ein gwefan |

**Cwcis Ymarferoldeb**
Rydym yn defnyddio'r cwcis ymarferoldeb canlynol:

| **Enw'r cwci** | **Pwrpas y cwci** |
|---|---|
| | Rydym yn defnyddio'r cwci yma i adnabod eich cyfrifiadur a dadansoddi patrymau traffig ar ein gwefan |

**Cwcis Dadansoddol/Perfformiad**
Rydym yn defnyddio'r cwcis dadansoddol/perfformiad canlynol:

| **Enw'r cwci** | **Pwrpas y cwci** |
|---|---|
| | Rydym yn defnyddio'r cwci yma i'n helpu i ddadansoddi sut mae defnyddwyr yn defnyddio'r wefan. |